

## DAVIES, MYLES (neu MILES) (1662 - 1715?), dadleuydd crefyddol a llyfryddwr

**Enw:** Myles Davies

**Dyddiad geni:** 1662

**Dyddiad marw:** 1715?

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** dadleuydd crefyddol a llyfryddwr

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** John James Jones

Mab George ac Elizabeth Davies, Tre'r Abbot, ym mhlwyf Whitford, Sir y Fflint. Hyfforddwyd ef yng Ngholeg Saesneg y Jesiwtiaid, Rhufain, lle'r urddwyd ef yn offeiriad 17 Ebrill 1688. Gadawodd y coleg 15 Hydref yr un flwyddyn, a dychwelodd adref i weithio gyda chenhadon y Jesiwtiaid yng Nghymru a siroedd y goror. Ond yn fuan troes at Brotestaniaeth, ac ysgrifennodd 'apologia' o'i droedigaeth yn y llyfr *The Recantation of Mr. Pollett, a Roman priest*, etc. (London, 1705). ' Pollett ' oedd ffugenw Davies fel cenhadwr fel ag y buasai ' Blount ' pan oedd yn efrydydd. Ar ôl ei dröedigaeth ymddengys iddo astudio'r gyfraith, oblegid ar deitlau gwahanol gyfrolau o'i brifwaith, *Athenae Britannicae* (6 chyf., London, 1716), geilw ei hun yn ' Gentleman of the Inns of Court,' ' Barrister-at-Law,' a ' Councillor-at-Law.' Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r gwaith hwn yn gyntaf oll ar ei phen ei hun yn 1715 o dan y teitl, *Eikon-Mikrobiblike sive Icon Libellorum, or a critical history of pamphlets* (London, 1715). Bodolaeth y gyfrol unigol hon ynghyd â'r chwech o'r teitlau newydd *Athenae Britannicae* sy'n gyfrifol, y mae'n lled debyg, am y mynegiad yn y *D.N.B.* a manau eraill fod gan yr Amgueddfa Brydeinig saith gyfrol o'r gwaith hwn. Prif amcan Davies wrth gyfansoddi'r gwaith oedd cofnodi, beirniadu, a gwrthbrofi'r pamffledi a'r traethodau a gyhoeddwyd gan y Pabyddion a chan y rhai a eilw ef yn Ariaid a Sosiniaid. Ceisia wrthbrofi'r rhain trwy ddyfynnu'n helaeth iawn o draethodau Protestannaidd. Y mae'r gwaith, felly, o werth mawr i'r sawl a astudia lyfryddiaeth neu hanes y math hwn ar lenyddiaeth. Byddai astudiaeth o'r ddwy gyfrol gyntaf yn arbennig yn fuddiol iawn i ymchwilyr i hanes llenorion Cymru a ysgrifennai yn Gymraeg yn ystod yr 16eg ganrif a'r 17eg. Cynhwysodd Davies yn y llyfr hwn beth o'i waith ef ei hunan, yn neilltuol y ddrama Ladin ' Pallas Anglicana,' etc., yn y bumed gyfrol.

Nid oes sicrwydd ynghylch blwyddyn ei farw. Rhoddir hi'n gyffredin fel 1715 (?), ond lledawgryma rhai ffeithiau ei fod yn fyw yn 1716. Er enghraifft, y mae ar gael gân fer o'i waith yn Lladin yn cyfarch Thomas Parker, arglwydd Macclesfield, a ddyrchafwyd yn bendefig yn y flwyddyn honno.

### Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

Thomas Pennant, *The history of the parishes of Whiteford and Holywell* (London 1796)

*Catholic Record Society*, vol. 50

Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus (1570-1800)*, vol. 6

*The Cambridge Bibliography of English Literature* (Caergrawnt 1940), vol. 2

d'Israeli, *The Calamities and Quarrels of Authors with some inquiries respecting their moral and literary characters, and memoirs for our literary history*

*British Museum. Catalogue of Printed Books* (1882)

Jnl. W.B.S., vi., 249-53 (a'r nodyn ar t. 309)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Myles Davies](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [8814941](#)

Wikidata: [Q6947663](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

